**Julie James AC/AM**
**Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip**
**Leader of the House and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf: MA/L/JJ/029918

Mick Antoniw, AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA
seneddMCD@cynulliad.cymru

24 Mai 2018

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Mai 2018 yn holi am ddull Llywodraeth Cymru o fynd ati i osod is-ddeddfwriaeth nad ydyw ar ffurf offeryn statudol, a darparu Memoranda Esboniadol.

Fel yn achos offerynnau statudol, mae ein dull o benderfynu a ddylai eitem o is-deddfwriaeth nad ydyw ar ffurf offeryn statudol gael ei gosod ai peidio yn cael ei lywio gan y weithdrefn a nodir yn y Ddeddf neu'r Mesur y mae'n deillio ohoni. Os oes gofyn gosod yr eitem o is-ddeddfwriaeth, byddwn yn dilyn gofynion Rheolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â'i ddiffiniad o is-ddeddfwriaeth.

Yn benodol, byddwn yn ystyried a yw Rheol Sefydlog 27.14 yn berthnasol. Mae hon yn cymhwyso darpariaethau Rheol Sefydlog 27 i adroddiad, canllawiau, cod ymarfer neu ddogfen arall y mae gofyn ei gosod gerbron y Cynulliad **ac** sydd hefyd yn destun unrhyw fath o weithdrefn gan y Cynulliad sy'n cyfateb i weithdrefn o fath cadarnhaol neu negyddol. Lle bo darpariaethau Rheol Sefydlog 27 yn gymwys i eitemau o'r fath, mae'r rhain yn cynnwys y gofyniad yn Rheol Sefydlog 27.1 i osod memorandwm esboniadol ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth (yn yr un modd ag y darperir memorandwm esboniadol ar gyfer offeryn statudol sy'n destun gweithdrefn o fath cadarnhaol neu negyddol).

Os oes un o weithdrefnau'r Cynulliad ynghlwm wrth is-ddeddfwriaeth nad yw'n offeryn statudol, bydd yn cael ei gosod o dan Reol Sefydlog 27. Os nad oes gweithdrefn ynghlwm wrthi, bydd yn cael ei gosod o dan Reol Sefydlog 15.1(i). Mae gennym drefniant hirsefydlog â'ch pwyllgor lle'r ydym yn rhoi gwybod ichi er cwrteisi pan wneir offerynnau statudol penodol nad oes raid eu gosod, yn enwedig gorchmynion cychwyn, a phan osodir eitemau penodol o is-ddeddfwriaeth nad ydynt ar ffurf offerynnau statudol, yn enwedig os gosodir yr eitem honno o dan Reol Sefydlog 27.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Roedd eich llythyr yn cyfeirio at bedair eitem yn arbennig, pob un ohonynt yn ymwneud â'r diwydiant dŵr. Roedd gweithdrefn o fath negyddol ynghlwm wrth y ddwy eitem *Datganiad o Amcanion a Blaenoriaethau Strategol ar gyfer Ofwat a gyhoeddwyd o dan adran 2B o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991* a *Canllawiau i Ofwat ar Godi Tâl am Ffioedd Datblygwyr, Ffioedd Swmpgyflenwadau a Ffioedd Mynediad.* Yn yr achosion hyn roedd Rheol Sefydlog 27.14 yn gymwys a dylai memorandwm esboniadol fod wedi cael ei osod ar y cyd â hwy. Dylem hefyd fod wedi tynnu eich sylw atynt er cwrteisi. O ran y ddau gyfarwyddyd, gan nad oedd un o weithdrefnau'r Cynulliad ynghlwm wrthynt, nid oedd Rheol Sefydlog 27.14 yn gymwys ac felly nid oedd angen memorandwm esboniadol.

Fel y mae eich llythyr yn nodi, nid yw'n hawdd bob amser penderfynu a yw eitem yn bodloni'r diffiniad o is-ddeddfwriaeth a nodir yn y Rheolau Sefydlog. Yn achos y ddwy eitem a nodwyd gennych, lle dylai Rheol Sefydlog 27.14 fod wedi cael ei chymhwyso, penderfynwyd yn anghywir nad oeddent yn bodloni'r diffiniad o is-ddeddfwriaeth. Amryfusedd gweinyddol ar ein rhan oedd yn gyfrifol am hyn, ac ymddiheurwn am hynny. Rwyf, wrth gwrs, yn hapus i edrych eto ar ein gweithdrefnau mewnol er mwyn osgoi amryfusedd o'r fath yn y dyfodol.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon yn helpu i egluro'r sefyllfa.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ac at y Cwnsler Cyffredinol.

Yn gywir

**Julie James AC/AM**
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip